Astudiaeth achos:
Grant Adnewyddu Menter

Rhanbarth
Denbighshire

Sector
Adwerthu

Gwerth y prosiect
£7,227

SNOWDONIA CANDLES

Mae gweithdy newydd wedi helpu entrepreneur ifanc i droi ei hobi yn fusnes ffyniannus gyda llygaid ar y farchnad ryngwladol.

Pan oedd Sky Irvine yn adolygu ar gyfer ei lefel A mewn Busnes yn ddiweddar, efallai ei bod wedi cael ychydig o fantais dros lawer o ymgeiswyr eraill. Wedi'r cyfan, nid theori yn unig ydoedd iddi hi. Roedd hi eisoes yn rhedeg busnes llwyddiannus.

Mae ei chwmni Snowdonia Candles yn gwneud amrywiaeth o ganhwyllau a hydoddiadau cwyr soia wedi'u tywallt â llaw, pob un yn ystyriol o ddiet fegan ac yn ddi-greulondeb, gydag arogleuon wedi'u hysbrydoli gan dirwedd Gogledd Cymru. Gyda bocsys anrhegion o'r enw Cariad, Cartref, Diolch a Hiraeth, mae'r rhain yn ganhwyllau wedi'u gwneud â chariad ac ymdeimlad cryf o hunaniaeth Gymreig.

Fel llawer o syniadau gwych, dechreuodd yn y gegin gartref. "Roedd fy Mam a minnau wrth fy modd â chanhwyllau ac roeddwn i'n meddwl y gallwn i wneud rhai iddi – dyna lle y dechreuodd. Yna dywedodd y teulu a ffrindiau eu bod yn eu hoffi ac roeddwn i'n meddwl y gallai hyn fod yn ddechrau busnes go iawn," meddai Sky, 18 oed, o Bentre Celyn.

Dechreuodd stocwyr o bob rhan o Ogledd Cymru ddangos cefnogaeth yn gyflym. Yn fuan, roedd bocsys o ganhwyllau ym mhob man yn y tŷ, nid bob amser mewn mannau a oedd yn hawdd dod o hyd iddynt. Roedd diffyg lle yn golygu gwneud canhwyllau ar alw yn hytrach na chodi lefelau stoc. Aeth grant Adnewyddu Menter Sky â'i busnes i lefel arall – o gegin gyfyng i weithdy allanol pwrpasol gyda raciau paledi i storio ac arddangos stoc.

"Diolch i'r grant, gallaf gynhyrchu tua 50% yn fwy o werthiannau drwy gynhyrchu mwy o stoc mewn ffordd fwy trefnus," meddai Sky. "Mae'n golygu y gallaf ymateb i archebion yn gyflymach, gan gynyddu boddhad cwsmeriaid ac arwain at fwy o werthiannau rheolaidd. Mae hefyd yn rhoi'r gallu i mi fodloni'r galw gan adwerthwyr a fy siop ar-lein."

Erbyn hyn, mae ganddi le i ddatblygu arogleuon newydd gyda hydoddydd masnachol sy'n gallu cynhyrchu 400 o ganhwyllau ar y tro. Mae hi eisoes wedi creu dau arogl newydd ar gais siop fferm ystâd yn Sir Ddinbych – Lafant Gwyn a Rhosyn ac Aeron Gwyllt sy'n swnio'n hudolus. Mae cynlluniau ar y gweill i lansio cannwyll gydag arogl powdwr babi fel anrheg i fabanod.

Mae gan Sky yr entrepreneur, sy'n bwriadu cymryd blwyddyn i ffwrdd cyn mynd i'r brifysgol i dyfu ei busnes, syniadau mawr. "Mae fy nghwsmeriaid presennol yn lleol ac yn rhanbarthol," meddai. "Ond wrth symud ymlaen, rwy'n meddwl y gallwn ni dorri i mewn i'r farchnad ryngwladol oherwydd mae enw Eryri yn adnabyddus ym mhob cwr o'r byd."

CADWYN Clwyd
Asiantaeth Datblygu Gwledig
Rural Development Agency

Cronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig
Ewrop yn Buddsoddi mewn Ardaloedd Gwledig
European Agricultural Fund for Rural Development:
Europe Investing in Rural Areas
LEADER
Llywodraeth Cymru
Welsh Government